

Pennod 9: Ceisiadau i Weinidogion Cymru

CYFLWYNIAD

- 9.1 Fel arfer, caiff ceisiadau am ganiatâd cynllunio eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio perthnasol, i'w hystyried ganddo. Fodd bynnag, weithiau gellir (neu mae'n rhaid) cyflwyno ceisiadau yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys:
- 1) pan fo awdurdod cynllunio wedi cael ei ddynodi'n awdurdod sy'n tangyflawni;
 - 2) pan fo cais yn cael effaith y tu hwnt i'r ardal leol;
 - 3) mewn ymateb i geisiadau brys ar gyfer datblygiad gan y Goron.
- 9.2 Yn ein Papur Ymgynghori, gwnaethom rai cynigion mewn perthynas ag (1) a (2). Cynigion ar gyfer newidiadau cymharol fach oeddent, a hynny o ganlyniad i'r newidiadau deddfwriaethol diweddar i'r gyfraith yn y maes hwn. Roeddem o'r farn y byddai'n amhriodol gwneud cynigion ar gyfer diwygiadau mawr nes bod effeithiau'r newidiadau hyn wedi'u cadarnhau'n llawn.

CEISIADAU YN ARDALOEDD AWDURDODAU CYNLLUNIO SY'N TANGYFLAWNI

Cynigiwyd dros dro gennym y dylai adrannau 62M i 62O o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n galluogi ymgeisydd i gyflwyno cais cynllunio yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru yn ardal awdurdod cynllunio sy'n tangyflawni, gael eu hailddatgan yn y Cod Cynllunio newydd, yn amodol ar addasiadau priodol er mwyn adlewyrchu ein cynigion ym Mhenodau 7 ac 8 (Cwestiwn 9-1 o'r Ymgynghoriad).

- 9.3 Roedd adran 23 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn rhoi opsiwn i ymgeiswyr osgoi'r awdurdod cynllunio, os oedd wedi'i ddynodi'n un sy'n tangyflawni, yn amodol ar feini prawf sy'n cael eu pennu gan Weinidogion Cymru a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.¹ Mae'r weithdrefn hon yn wahanol i'r weithdrefn galw i mewn, a ddefnyddir yn anfyfych yn ymarferol; mae'n galluogi'r ymgeisydd i gymryd camau gweithredu ei hun, a gall osgoi oedi.²
- 9.4 O ystyried pa mor ddiweddar yw'r ddarpariaeth, cynigiwyd gennym y dylid ei hailddatgan yn y Cod Cynllunio. O'r 33 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 16 yn cefnogi ein cynnig dros dro. Roedd 17 yn anghytuno.
- 9.5 Roedd Cymdeithas y Swyddogion Cynllunio yng Nghymru (POSW) a POSW Deddwyrain Cymru yn anghytuno â'n cynnig, a hefyd 15 o awdurdodau cynllunio ac un

¹ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 62N. Bydd gan y Cynulliad Cenedlaethol 21 diwrnod i benderfynu peidio â chymeradwyo'r ddogfen, ac ar ôl hynny bydd yn rhaid i'r meini prawf fodloni pob un o'r amodau a nodir yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

² Papur Ymgynghori, paragraffau 9.6 i 9.10.

ymgyngorai unigol. Dywedodd sawl awdurdod fod adrannau 62M i 62O yn ddiangen. Dadleuodd CBS Merthyr Tudful a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro, yn lle hynny, y gallai ceisiadau gael eu galw i mewn gan Weinidogion Cymru mewn amgylchiadau pan oedd problem wedi codi gyda'r awdurdodau cynllunio. Dadleuodd CS Penfro fod y posibilrwydd o apelio ar sail methu penderfynu yn ddigon i alluogi ymgeiswyr i oresgyn awdurdodau cynllunio sy'n tangyflawni.

- 9.6 Roedd POSW De-ddwyrain Cymru a Chyngor Caerdydd hefyd o'r farn bod y ddarpariaeth yn ddiangen. Yn ei lle, gwnaethant awgrymu darpariaethau a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio ddychwelyd ffioedd os na phenderfynir ar gais o fewn cyfnod y cytunir arno. Dywedwyd bod y weithdrefn hon yn cael ei hystyried yn "adequate sanction" sy'n debygol o annog "[planning authorities] to perform efficiently".
- 9.7 Nodwn ddifrifoldeb y pryderon a fynegwyd gan y rhai a oedd yn anghytuno â'n cynnig, yr oedd bron bob un ohonynt yn awdurdodau cynllunio sy'n gyfrifol am weinyddu'r system. Roeddent yn pryderu am y problemau gweithdrefnol a'r problemau eraill a fyddai'n codi, yn eu barn hwy, pan fo Gweinidogion Cymru yn ymgymryd â chyfrifoldebau awdurdod, gan nodi bod yr agweddau ar benderfyniad cynllunio yn y tymor hwy (megis diddymu amodau, a gorfodi) yn golygu y bydd yn rhaid i'r awdurdod cynllunio fod yn rhan o'r broses yn y pen draw.
- 9.8 Yn ein barn ni, nid yw dibynnu ar y weithdrefn galw i mewn na'r weithdrefn apelio yn ddigon i gymryd lle'r weithdrefn o dan adrannau 62M i 62) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae dibynnu ar y weithdrefn galw i mewn yn anfoddhaol, gan ei bod yn gofyn i'r awdurdod ystyried cais cyn y bydd Gweinidogion yn gweithredu; ac maent yn amharod i alw ceisiadau oni fydd amgylchiadau eithriadol. Mae apêl yn dibynnu ar aros nes bod yr awdurdod wedi gwrthod y cais, neu wedi methu â gwneud unrhyw benderfyniad. Mae'r ddwy weithdrefn yn debygol o achosi oedi ar gyfer prosiectau, gan arwain at gostau ychwanegol i ddatblygwyr, ac nid yw'r naill na'r llall yn debygol o leddfu'r pwysau ar awdurdod cynllunio sy'n cael anhawster cyflawni ei ddyletswyddau. Hefyd, yn ein barn ni, nid "sanction" ydynt ond, yn hytrach, ffordd o sicrhau nad yw'r broses rheoli datblygu mewn ardal benodol yn cael ei rhwystro, pan fo awdurdodau yn wynebu anawsterau.
- 9.9 Pwysleisiwyd natur eithriadol y ddarpariaeth hon gan nifer o'r ymgynghoreion a oedd yn cytuno â'n cynnig. Dadleuodd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol mai dim ond pan fetho popeth arall y dylid ei defnyddio, ac awgrymodd yr Ymddiriedolaeth Theatrau y dylai gael ei defnyddio ar y cyd ag ymgais gan Weinidogion Cymru "[to work] with 'underperforming' planning authorities to resolve any perceived shortcomings as quickly as possible". Roedd y ddau ymgynghorai yn cefnogi'r cynnig, gan awgrymu y gallai fod yn ddarpariaeth werthfawr o dan yr amgylchiadau priodol.
- 9.10 Rydym yn cytuno y gall bodolaeth pŵer i ymgymryd â chyfrifoldebau awdurdod cynllunio dros dro fod yn werthfawr. Mae'n adlewyrchu polisi a fabwysiadwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru; byddai ei ddiddymu yn gyfystyr â newid sylweddol mewn polisi. Disgwylwn mai dim ond o dan amgylchiadau eithafol ac ar sail dros dro y byddai'r pwerau yn cael eu harfer, tra bod yr awdurdod yn gwneud y newidiadau sydd eu hangen er mwyn iddo weithredu unwaith eto yn y ffordd arferol.

- 9.11 Yn y bôn, roedd yr ymatebwyr a anghytunodd â'n cynnig yn cynrychioli barn y rhai nad ydynt o blaid y gyfraith fel y saif, ac nad ydynt yn dymuno ei gweld yn cael ei hailddatgan yn y Bil newydd, a hynny'n ddealladwy. Er ein bod yn deall pryderon o'r fath, yn ein barn ni, nid ydynt wedi amlygu unrhyw ddiffygion technegol sy'n cyfiawnhau ymyrraeth ar ein rhan ni i atal y weithdrefn newydd rhag cael ei chario ymlaen. Wrth gwrs, bydd p'un a gaiff fyth ei defnyddio yn ymarferol yn fater i'w ystyried mewn unrhyw adolygiad o'r ddeddfwriaeth yn y dyfodol.
- 9.12 Felly, argymhellwn o hyd y dylai'r pŵer i ganiatáu i ymgeiswyr gyflwyno ceisiadau cynllunio yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru yn ardal awdurdod cynllunio sy'n tangyflawni gael ei ailddatgan yn y Bil Cynllunio newydd.

Argymhelliad 9-1.

Argymhellwn y dylai adrannau 62M i 62O o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n galluogi ymgeisydd i gyflwyno cais cynllunio yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru yn ardal awdurdod cynllunio sy'n tangyflawni gael eu hailddatgan yn y Bil Cynllunio newydd, yn amodol ar addasiadau priodol er mwyn adlewyrchu ein argymhelliadau ym Mhenodau 7 ac 8.

DATBLYGIADAU O ARWYDDOCÂD CENEDLAETHOL

- 9.13 Nid yw awdurdodau cynllunio lleol yn gyfrifol am benderfynu ar bob cais ar gyfer datblygiadau yn eu hardal.
- 9.14 Yn gyntaf, bydd prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol mewn rhai categorïau penodol yn destun ceisiadau i'r Ysgrifennydd Gwladol (nid Gweinidogion Cymru) ar gyfer cydsyniad datblygu yn hytrach na chaniatâd cynllunio, o dan weithdrefn a osodwyd yn Neddf Cynllunio 2008, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Lleoliaeth 2011.³ Os caiff cydsyniad datblygu ei roi gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ni fydd angen unrhyw gydsyniad na chaniatâd arall gan awdurdodau cynllunio lleol.⁴
- 9.15 Yn ail, mae'n rhaid i geisiadau am ganiatâd cynllunio ar gyfer prosiect sydd mewn unrhyw un o 12 categori arall o ddatblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru yn hytrach nag i awdurdodau cynllunio lleol.⁵ Ceir rhestr o'r categorïau hyn yn Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) 2016.⁶ Mae'r rhain yn cynnwys amrywiol gynlluniau cynhyrchu ynni, a datblygiadau sy'n ymwneud â meysydd awyr, rheilffyrdd, cronfeydd dwr, a gwaredu gwastraff.⁷ Mae'r weithdrefn

³ Rhestrir y pum categori o brosiectau yn Neddf Cynllunio 2008, adrannau 15 i 17, 21 a 24, yn ddarostyngedig i ddiwygiadau yn Neddf Cymru 2017 a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2018 (gweler OS 2017/1179).

⁴ Deddf Cynllunio 2008, a 33.

⁵ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 62(3).

⁶ OS 2016/53

⁷ Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) 2016, Rheoliad 3(1).

ar gyfer ymdrin â datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol yn sgil y newidiadau deddfwriaethol a gyflwynwyd gan Ddeddf Cymru 2017 a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2018, yn destun ymgynghoriad a gynhelir ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru.⁸

- 9.16 Mae'r gyfraith ynglŷn â Chynlluniau Gwella Gorsafoedd Cenedlaethol y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad hwn, ac ni wnaethom unrhyw gynigion yn eu cylch yn ein Papur Ymgynghori. Fodd bynnag, gwnaethom ychydig o gynigion o ran y gyfraith ynglŷn â'r weithdrefn datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol. Ystyrir y rhain isod.

Ymgynghori a gwasanaethau cyn ymgeisio

Cynigiwyd dros dro gennym y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud ag ymgynghori cyn ymgeisio a gwasanaethau cyn ymgeisio mewn cysylltiad â datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol gael ei hadolygu a, lle y bo'n briodol, ei gwneud yn fwy eglur (Cwestiwn 9-2 o'r Ymgynghoriad).

- 9.17 Cyflwynodd adran 17 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 ofyniad i ddatblygwyr datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol gynnal ymgynghoriad cyn ymgeisio. Mae'r broses ymgynghori yn cynnwys rhoi cyhoeddusrwydd i'r cais arfaethedig mewn ffordd "likely to bring it to the attention of a majority of the persons who own or occupy premises in the vicinity of the land".⁹ Mae adran 18 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ragnodi dyletswyddau iddynt hwy eu hunain ac awdurdodau cynllunio lleol i ddarparu gwasanaethau cyn ymgeisio.¹⁰ Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth am hanes cynllunio'r tir, y cynllun datblygu, ac unrhyw rywmedigaethau neu ystyriaethau cynllunio sy'n debygol o gael eu hystyried ganddynt pan gaiff y cais ei gyflwyno.¹¹
- 9.18 Yn ein Papur Ymgynghori, awgrymwyd gennym fod rhywfaint o amwysedd ynglŷn â chwmpas y ddwy ddarpariaeth a'r ffordd y cânt eu cymhwyso, yn enwedig mewn perthynas â chydysniadau eilaidd. Nodwyd gennym fod y ddyletswydd ynghylch ymgynghori ond yn gymwys i geisiadau am ganiatâd cynllunio, ac awgrymwyd ei bod yn aneglur p'un a yw hefyd yn gymwys i geisiadau am gydsyniadau eilaidd cysylltiedig. Er enghraifft, pan fo datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol yn ymwneud â safle sy'n cynnwys sylweddau peryglus, mae'n aneglur p'un a fyddai'n ofynnol i ddatblygwyr ymgynghori â'r cyrff y byddai'n ymgynghori â hwy er mwyn cael cydsyniad sylweddau peryglus.
- 9.19 Mewn perthynas â'r ddarpariaeth ynghylch gwasanaethau cyn ymgeisio, mae'r ddyletswydd ond yn gymwys i geisiadau a wneir o dan neu yn rhinwedd Rhan 3 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.¹² Yn y Papur Ymgynghori, gwnaethom

⁸ Llywodraeth Cymru, *Newidiadau i'r broses o roi caniatâd seilwaith: Tuag at sefydlu proses bwrpasol ar gyfer rhoi caniatâd seilwaith yng Nghymru*, 30 Ebrill 2018.

⁹ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adrannau 61Z, a gyflwynwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, a 17.

¹⁰ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adrannau 61Z1, 61Z2 a gyflwynwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, a 18.

¹¹ Rheoliad 7, Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydysniadau Eilaidd Rhagnodedig) 2016.

¹² Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, 61Z1(4), a fewnosodwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, adran 18.

gwestiynu cwmpas y ddyletswydd honno, gan amau a yw'n gymwys i geisiadau am gydsyniadau eilaidd os nad ydynt wedi'u cynnwys yn awtomatig ynghyd â'r cais am gydsyniad datblygu ei hun.

- 9.20 Roedd 30 o'r 32 o ymgynghorion a ymatebodd i'r cwestiwn yn cytuno y dylai'r gyfraith fod yn fwy eglur. Dywedodd yr Arolygiaeth Gynllunio, a groesawodd ein cynnig, ei fod yn cefnogi "the provision of advice on secondary consents", a mynegodd Cymorth Cynllunio Cymru ei gefnogaeth hefyd, gan nodi "would be pleased to be involved in any future review".
- 9.21 Awgrymodd dau ymgynghorai, SP Energy Networks a Cyfoeth Naturiol Cymru y dylai adolygiad posibl fod yn ehangach ei gwmpas, ac y dylai gwmpasu'r broses ar gyfer cynlluniau gwella gorsafoedd cenedlaethol a datblygiadau mawr. Fel y nodir uchod, mae adolygiad o'r weithdrefn o ran cynlluniau gwella gorsafoedd cenedlaethol y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad presennol, ac efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu newid y broses gydsynio ar gyfer datblygiadau mawr yn ystod ein hadolygiad awgrymedig.
- 9.22 Efallai y caiff yr ansicrwydd a nodwyd gennym uchod ei ddatrys wrth i'r newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 ddod i rym yn llawn. Fodd bynnag, rydym yn awgrymu y byddai'n ddefnyddiol pe câi'r gyfraith berthnasol ei gwneud yn fwy eglur – naill ai wrth ddrafftio'r Cod Cynllunio newydd neu fel rhan o unrhyw adolygiad o'r weithdrefn ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol sy'n deillio o'r ymgynghoriad cyfredol.

Argymhelliad 9-2.

Argymhellwn y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud ag ymgynghori cyn ymgeisio a gwasanaethau cyn ymgeisio mewn cysylltiad â datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol gael ei hadolygu a, lle y bo'n briodol, ei gwneud yn fwy eglur.

Aseswyr

Cynigiwyd dros dro gennym y dylai'r pŵer i benodi aseswyr i gynorthwyo arolygwyr wrth iddynt benderfynu ar geisiadau ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol sy'n destun ymchwiliadau neu wrandawiadau gael ei ymestyn i ganiatáu eu penodi mewn cysylltiad â cheisiadau y penderfynir arnynt ar sail sylwadau ysgrifenedig (Cwestiwn 9-3 o'r Ymgynghoriad).

- 9.23 Gellir ymdrin â cheisiadau am ddatblygiad o arwyddocâd cenedlaethol drwy sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiadau, ymchwiliadau, neu gyfuniad o bob un o'r tri, a gynhelir gan yr Arolygiaeth Gynllunio.¹³ Canlyniad y gweithdrefnau hyn yw paratoi adroddiad, a gyflwynir i Weinidogion Cymru, sy'n arwain at benderfyniad rhesymedig gan Weinidogion Cymru. Mae Atodlen 4D i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru benodi aseswyr i gynorthwyo arolygwyr ar gyfer

¹³ Adran yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol (Llywodraeth Cymru), *Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chysyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Diwygio) (Cymru) 2016* (2 February 2016) ym mhara 6.21.

gwrandawiadau neu ymchwiliadau. Yn ein Papur Ymgynghori, awgrymwyd gennym nad oedd unrhyw reswm pam na ddylai'r pŵer hwn gael ei ymestyn i gynnwys ceisiadau a brosesir drwy sylwadau ysgrifenedig.¹⁴

- 9.24 Roedd pob un o'r 29 o ymgynghoreion yn cytuno'n unfrydol â'r cynnig hwn. Disgrifiodd yr Arolygiaeth Gynllunio sut y gallai aseswyr fod "as helpful in dealing quickly and correctly with matters raised in written representations as they would be during inquiries/hearings". Awgrymodd Sirius Planning hefyd y gallai helpu i gyflymu'r broses o benderfynu ar geisiadau.
- 9.25 Er bod Cymdeithas y Cyfreithwyr yn cytuno â'n cynnig, awgrymodd y dylai'r rhai a benodir i gynorthwyo gael eu galw yn arbenigwyr neu'n gynghorwyr arbenigol am mai dyna'r term sy'n disgrifio'r rôl dan sylw orau. Er ein bod yn cytuno mai rôl aseswyr yw rhoi cymorth a gwybodaeth (yn hytrach nag asesu'r cais dan sylw yn annibynnol), rydym o'r farn mai'r term "aseswyr" sy'n cael ei ddefnyddio amlaf mewn cyd-destunau eraill, ac nid ydym yn argymhell unrhyw newid.

Argymhelliad 9-3

Argymhellwn y dylai'r pŵer i benodi aseswyr i gynorthwyo arolygwyr wrth iddynt benderfynu ar geisiadau ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol sy'n destun ymchwiliadau neu wrandawiadau gael ei ymestyn i ganiatáu eu penodi mewn cysylltiad â cheisiadau y penderfynir arnynt ar sail sylwadau ysgrifenedig.

Ailddatgan yn y Bil

Cynigiwyd dros dro gennym y dylai adrannau 62D i 62L o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gael eu hailddatgan yn y Cod Cynllunio newydd, yn amodol ar addasiadau priodol er mwyn adlewyrchu ein cynigion ym Mhenodau 7 ac 8 (Cwestiwn 9-4 o'r Ymgynghoriad).

- 9.26 Fel y nodwyd yn y cyflwyniad i'r Bennod hon, nodir y darpariaethau sy'n amlinellu'r weithdrefn i ymdrin â cheisiadau ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol o dan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015. Fel y cyfryw, darpariaethau diweddar iawn ydynt. Mae problemau sy'n deillio ohonynt eto i ddod i'r amlwg, ac nid ydym yn ystyried gwneud unrhyw argymhellion i'w newid.
- 9.27 Cytunodd pob un o'r 28 o ymgynghoreion â hyn. Dywedodd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol fod y cynnig yn rhesymol, gan awgrymu bod diffyg profiad o'r ddeddfwriaeth ddiweddar iawn yn gyffredinol. Dim ond un ymgynghorai a fynegodd bryder. Er i'r Arolygiaeth Gynllunio gytuno ag ef mewn egwyddor nododd "it is not clear exactly how proposals would alter the DNS application procedure", gan rybuddio "as the DNS system is a unique procedure, any changes in relation to the application process would have to be carefully considered".

¹⁴ Papur Ymgynghori, para 9.28.

- 9.28 Rydym yn cytuno ond, yn ein barn ni, ni fydd y cynnig hwn yn effeithio ar gwmpas y weithdrefn i ymdrin â cheisiadau ar gyfer datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol. Felly, rydym yn ystyried ei gadw.

Argymhelliad 9-4.

Argymhellwn y dylai adrannau 62D i 62L o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gael eu hailddatgan yn y Bil Cynllunio newydd, yn amodol ar addasiadau priodol er mwyn adlewyrchu ein cynigion ym Mhenodau 7 ac 8.

COMISIYNAU YMCHWILIADAU CYNLLUNIO

Cynigiwyd dros dro gennym na ddylai adrannau 101 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (comisiynau ymchwiliadau cynllunio) nac Atodlen 8 i'r ddeddf honno gael eu hailddatgan yn y Cod Cynllunio newydd (Cwestiwn 9-5 o'r Ymgynghoriad).

- 9.29 Sefydlodd Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1968 gomisiwn ymchwiliad cynllunio i ystyried materion “national or regional importance” neu “technical or scientific aspects of [a] proposed development [which are] unfamiliar in character”.¹⁵ Mae gan Weinidogion y pŵer i sefydlu comisiwn, a chyfeirio ceisiadau am ganiatâd cynllunio ato.¹⁶
- 9.30 Nodwyd gennym, yn ein Papur Cwmpasu a'n Papur Ymgynghori, nad oedd unrhyw gomisiwn wedi cael ei sefydlu erioed, bod y weithdrefn wedi cael ei beirniadu cryn dipyn, ac nad oedd unrhyw debygolrwydd y câi comisiwn ei sefydlu yn y dyfodol.¹⁷ O ganlyniad, awgrymwyd gennym na ddylai darpariaethau ynglŷn â chomisiynau ymchwiliadau cynllunio gael eu hailddatgan yn y Cod Cynllunio newydd.
- 9.31 Cytunodd pob un o'r 29 o ymgynghoreion â'n cynnig. Dywedodd Cymdeithas y Cyfreithwyr mai “historical leftover” ydoedd ac awgrymodd y Grid Cenedlaethol “[the proposal] fits in well with the philosophy of planning simplification”.

Argymhelliad 9-5.

Argymhellwn na ddylai adran 101 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (comisiynau ymchwiliadau cynllunio) nac Atodlen 8 i'r ddeddf honno gael eu hailddatgan yn y Bil Cynllunio newydd.

¹⁵ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 101(3).

¹⁶ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 101.

¹⁷ Papur Cwmpasu, para 5.53; Papur Ymgynghori, para 9.36.